

CANLLAWIAU'R ASB AR OFYNIION DEDDFWRIAETH HYLENDID BWYD

CYNNWYS

Adran		Tudalen
1	Cyflwyniad	2
2	Cefndir	3
3	Cwmpas	3-5
4	Gofynion Rheoliad 852/2004 – Cynhyrchwyr Sylfaenol	5
5	Cofrestru	5-6
6	Cymeradwyo	6-7
7	Gofynion hylendid penodol	7
8	Rheoli Diogelwch Bwyd	7
9	Canllawiau arferion da	8
10	Gorfodi	8-9
Atodiadau		
A	Y Rheoliadau Hylendid Bwyd a deddfwriaeth gysylltiedig	10-12
B	Ffynonellau cyngor a gwybodaeth	13-23
C	A yw darpariaethau Rheoliad 852/2004 yn berthnasol?	24-25
D	A yw darpariaethau Rheoliad 853/2004 hefyd yn berthnasol?	26-28
E	A oes angen cymeradwyaeth ar y busnes?	29-31
F	Darpariaethau sy'n ymwneud â chynhyrchu sylfaenol	33-47
G	Canllawiau cryno ar y darpariaethau sy'n berthnasol i fusnesau bwyd	48-64
H	Dehongliad yr ASB o dermau a ddefnyddir yn Rheoliadau'r UE	65-68
I	Mesurau gweithredu a throsiannol	69-71
J	Ffurflen gais ar gyfer cofrestru busnesau bwyd	72

CANLLAWIAU'R ASB AR OFYNIION DEDDFWRIAETH HYLENDID BWYD

1. Cyflwyniad

1.1 Mae deddfwriaeth hylendid bwyd wedi newid ers 1 Ionawr 2006. Mae Atodiad A yn rhoi manylion am reoliadau perthnasol yr UE a deddfwriaeth genedlaethol gysylltiedig. Mae angen y rheoliadau cenedlaethol i orfodi gofynion rheoliadau'r UE. Maent hefyd yn cynnwys rhai darpariaethau cenedlaethol y mae rheoliadau'r UE yn ein galluogi ni i'w gwneud.

1.2 Mae'r canllawiau hyn yn egluro'r gofynion cyfreithiol y mae'n rhaid i fusnesau bwyd gydymffurfio â nhw a dylid eu darllen gyda deddfwriaeth yr UE a'r ddeddfwriaeth genedlaethol a nodir yn Atodiad A. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd hefyd wedi cynhyrchu canllawiau ar wahanol agweddau o'r ddeddfwriaeth. Mae'r manylion yn Atodiad B.

1.3 Er nad yw'r canllawiau hyn yn gyfreithiol rwymol, maent yn cynrychioli barn yr Asiantaeth ac wedi'u cyhoeddi er mwyn rhoi cyngor a gwybodaeth i fusnesau bwyd am y rheolau hylendid bwyd newydd. Ond dim ond y llysoedd all roi dehongliad terfynol o'r gyfraith.

1.4 Yn y canllawiau hyn, mae'r cyfeiriadau yn y ddeddfwriaeth wedi'u hamlygu **fel hyn**. Mae Atodiad B yn rhoi manylion am ffynonellau cyngor a gwybodaeth eraill a all eich helpu i gydymffurfio â'r gyfraith. Cofiwch y gall unrhyw gyfeiriadau gwefannau sydd yn y ddogfen hon, y rhai ar wefan yr ASB a gwefannau allanol, newid.

1.5 Os oes gennych unrhyw sylwadau ar y canllawiau hyn neu unrhyw gwestiynau amdanynt, cysylltwch â'r canlynol:

Cymru
Owen Davies, 029 2067 8915,
Owen.davies@foodstandards.gsi.gov.uk

Lloegr:
David Gray, 0207 276 8940,
david.gray@foodstandards.gsi.gov.uk

Yr Alban:
Jennifer Howie, 01224 285142,
jennifer.howie@foodstandards.gsi.gov.uk

Gogledd Iwerddon:
Louise Connolly, 028 9041 7741,
louise.connolly@foodstandards.gsi.gov.uk

2. Cefndir

2.1 Cynlluniwyd y ddeddfwriaeth newydd i:

- foderneiddio, cydgyfnerthu a symleiddio deddfwriaeth hylendid bwyd yr UE;
- gweithredu rheolaethau effeithiol a chymesur gydol y gadwyn fwyd, o gynhyrchu sylfaenol i werthu neu gyflenwi i'r defnyddiwr terfynol;
- canolbwyntio rheolaethau ar yr hyn sydd ei angen i ddiogelu iechyd y cyhoedd;
- egluro mai cyfrifoldeb pennaf gweithredwyr busnesau bwyd yw cynhyrchu bwyd yn ddiogel.

2.2 Mae gan y ddeddfwriaeth newydd nifer o ddarpariaethau sy'n berthnasol i wahanol fwydydd. Bydd y math(au) o fwydydd y mae busnesau'n eu trafod neu eu gwerthu yn penderfynu pa ofynion sy'n rhaid iddynt gydymffurfio â nhw.

2.3 Yn gyffredinol, mae Rheoliadau 852/2004 a 853/2004 yn nodi gofynion ar gyfer gweithredwyr busnesau bwyd. Mae Rheoliad 852/2004 yn berthnasol i bob busnes bwyd (yn cynnwys y rhai sy'n gweithredu ar lefel cynhyrchu sylfaenol). Mae Rheoliad 853/2004 yn berthnasol hefyd i rai busnesau bwyd sy'n trafod cynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid (gweler Atodiad D). Mae Rheoliad 854/2004 yn nodi gofynion ar gyfer rheolaethau swyddogol ar gynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid ac felly'n nodi swyddogaethau'r rhai sy'n gorfodi'r darpariaethau.

2.4 Mae nifer o fesurau gweithredu a throsiannol manylach wedi'u mabwysiadu ar lefel Ewropeaidd. Pan fo'r rhain yn berthnasol i feysydd a drafodir yn y canllawiau hyn, caiff hyn ei amlygu gyda'r manylion wedi'u cynnwys yn Atodiad I.

3. Cwmpas

3.1 Pwy sy'n gorfod cydymffurfio â Rheoliadau'r UE?

Busnesau bwyd a gweithredwyr busnesau bwyd, yn unol â'r diffiniad ohonynt. Os nad yw'r diffiniadau yn berthnasol i unigolyn neu fusnes nid yw Rheoliadau'r UE yn berthnasol iddynt.

- | |
|--|
| <ul style="list-style-type: none">• ““Busnes bwyd” yw unrhyw fusnes, boed am elw neu beidio a boed yn gyhoeddus neu'n breifat, sy'n cyflawni unrhyw gam o'r broses o gynhyrchu, prosesu a dosbarthu bwyd.” |
|--|

- “Gweithredwr busnes bwyd” yw’r person naturiol neu gyfreithiol sy’n gyfrifol am sicrhau bod gofynion cyfraith bwyd yn cael eu bodloni yn y busnes bwyd sydd dan eu rheolaeth.” (Erthygl 3.2 a 3.3 Rheoliad 178/2002).

Mae esboniad pellach o’r hyn y bwriadwyd ei gwmpasu yng **nghroniciad 9 Rheoliad 852/2004** sy’n datgan:

- “...dim ond lle yr ymgwymerir â gweithgarwch sy’n awgrymu rhywfaint o ddilyniant yn y gweithgareddau a rhywfaint o drefniadaeth y dylai rheolau’r Gymuned fod yn berthnasol.”

3.2 Beth sydd wedi’i eithrio?

- Unigolion neu grwpiau sy’n paratoi bwyd yn achlysurol ar gyfer digwyddiadau cymdeithasol neu i’w werthu mewn digwyddiadau elusennol.

Ond byddai’n rhaid i weithgareddau o’r fath fodloni gofynion cyfreithiol cyffredinol sy’n ymwneud â gosod bwyd anniogel ar y farchnad. Mae’r rhain wedi’u cynnwys yn Erthygl 14 Rheoliad 178/2002 y CE fel y’i gweithredwyd gan Reoliadau Bwyd Cyffredinol 2004.

3.3 Mae rhai gweithgareddau eraill wedi’u heithrio o Reoliadau’r UE:

- a) cynhyrchu sylfaenol at ddefnydd domestig preifat;
- b) paratoi, trafod neu storio bwyd yn y cartref i’w fwyta’n breifat yn y cartref;
- c) cynhyrchydd yn cyflenwi symiau bychain o gynhyrchion sylfaenol yn uniongyrchol i’r defnyddiwr terfynol neu i fusnesau manwerthu lleol sy’n cyflenwi’r defnyddiwr terfynol yn uniongyrchol;
- d) canolfannau casglu a thanerdai sy’n dod dan y diffiniad o fusnes bwyd am eu bod yn trafod deunydd amrwd i gynhyrchu gelatin neu golagen. **(Erthygl 1(2) Rheoliad 852/2004).**

3.4 Yn achos 3.3 c), mae’n rhaid i’r gweithgareddau hyn fodloni’r gofynion cyffredinol sy’n ymwneud â gosod bwyd anniogel ar y farchnad. Mae’r rhain wedi’u cynnwys yn Erthygl 14 Rheoliad 178/2002 y CE fel y’u gweithredwyd gan Reoliadau Bwyd Cyffredinol 2004. Yn achos wyau a gyflenwir yn unol â c), bydd Rheoliadau Wyau Heb eu Graddio (Hylendid) 1990¹ yn parhau yn berthnasol hefyd. Mae’r Rheoliadau hyn yn gwahardd y cynhyrchydd rhag gwerthu wyau heb eu graddio sydd wedi cracio yn uniongyrchol i’r defnyddiwr ar ei fferm ei hun, mewn marchnad gyhoeddus leol nac o ddrws i ddrws. Yn achos 3.3 d) mae’n rhaid i ganolfannau casglu a thanerdai sy’n cyflenwi deunyddiau crai ar gyfer cynhyrchu gelatin neu golagen gael eu hawdurdodi

¹ Yn yr Alban, cafodd y Rheoliadau hyn eu dirymu gan Reoliadau Hylendid Bwyd (yr Alban) (2005)

gan yr awdurdod bwyd lleol a bodloni rhai gofynion i atal halogiad. (Atodiad III, Adran XIV, Pennod I (5) ac Adran XV, Pennod I (5) Rheoliad 853/2004).

3.5 Mae Atodiad C yn cynnwys canllaw byr i weld a yw darpariaethau Rheoliad 852/2004 yn berthnasol. Mae Atodiad D yn ganllaw i weld a yw darpariaethau Rheoliad 853/2004 yn berthnasol hefyd. Efallai y bydd angen i fusnesau ddarllen yr Atodiadau hyn yng nghyd-destun eu holl weithgareddau i weld sut mae'r darpariaethau'n effeithio ar eu busnes cyfan. Mae Atodiad G yn crynhoi darpariaethau rheoliadau'r UE a'r ddeddfwriaeth genedlaethol sy'n berthnasol i wahanol fathau o fusnesau bwyd ac yn amlygu'r newidiadau mwyaf arwyddocaol o ofynion cyfreithiol cyfredol.

3.6 Mae Rheoliadau'r UE yn defnyddio rhai termau nad ydynt wedi'u diffinio yn Rheoliadau'r UE, ond sydd ag ystyr iddynt yn y rheoliadau hynny. Felly, ni allwn eu diffinio (a rhoi ystyr wahanol iddynt o bosib) mewn deddfwriaeth genedlaethol, na chynnig diffiniad pendant o'u hystyr mewn canllawiau. Fodd bynnag, gallwn nodi sut i ddehongli'r termau mewn sefyllfaoedd gwahanol. Mae'r dehongliadau hyn wedi'u nodi yn Atodiad H.

4. Gofynion Rheoliad 852/2004 – Cynhyrchwyr Sylfaenol

4.1 Dan Reoliad 852/2004, mae cynhyrchwyr sylfaenol yn gorfod dilyn gofynion gwahanol i fathau eraill o fusnesau bwyd. Mae ffermwr, pysgotwr neu heliwr anifeiliaid hela gwyllt yn 'gynhyrchwyr sylfaenol' (gweler Atodiad F am ddiffiniad llawn). Mae'r gofynion sy'n cwmpasu cynhyrchu sylfaenol wedi'u disgrifio yn Atodiad F. Mae'r darpariaethau sy'n berthnasol i **bob** busnes bwyd **arall** yn cael eu trafod yn fanylach isod.

5. Cofrestru

5.1 Mae'n rhaid i weithredwyr busnesau bwyd gofrestru eu busnesau (h.y. pob uned unigol o'u busnesau bwyd, sy'n cynnwys pantri adar hela a chanolfannau casglu) gyda'r awdurdod cymwys perthnasol (Erthygl 6 (2) Rheoliad 852/2004). Mae Adran 10 yn egluro pwy yw'r awdurdod hwn. Nid yw hyn yn berthnasol i fusnesau sydd angen cymeradwyaeth yn unig (Erthygl 6 (3) Rheoliad 852/2004) (gweler paragraff 6 ar gymeradwyaeth isod). Os yw busnes eisoes wedi cofrestru dan ddeddfwriaeth flaenorol ac na fu unrhyw newidiadau ers iddo gofrestru neu ers yr ymweliad diwethaf gan yr awdurdod cymwys, nid oes angen gweithredu pellach i gydymffurfio â'r gofyniad hwn.

5.2 Mae'n rhaid i weithredwyr busnesau bwyd gofrestru eu busnesau gyda'r awdurdod cymwys perthnasol o leiaf 28 diwrnod cyn i'r busnes ddechrau gweithredu. Mae Atodiad J yn cynnwys ffurflen gofrestru safonol ar gyfer gwneud hyn. Mae'n rhaid cwblhau ffurflen ar gyfer pob busnes a'i chyflwyno i'r awdurdod cymwys perthnasol. Wrth gofrestru, mae'n rhaid i weithredwyr busnesau bwyd ddarparu manylion llawn gweithgareddau'r busnes i'r awdurdod cymwys perthnasol. Ar ôl cofrestru eu busnes, mae'n rhaid i weithredwyr busnesau bwyd sicrhau eu bod yn hysbysu'r awdurdod cymwys am unrhyw newidiadau i fanylion a ddarparwyd eisoes e.e. newid i

weithredwr y busnes bwyd, newid i weithrediadau bwyd ac ati (**Erthygl 6 (2) Rheoliad 852/2004**). Dylid hysbysu'r awdurdod am wybodaeth o'r fath cyn gynted â phosib a ddim hwyrach na 28 diwrnod ar ôl i'r newid ddigwydd.

5.3 Efallai y bydd angen i fusnesau sy'n cyflawni nifer o weithgareddau gwahanol gael eu cofrestru ar gyfer rhai gweithgareddau a'u cymeradwyo ar gyfer gweithgareddau eraill. Pan fo angen cymeradwyaeth i gyflawni gweithgarwch, nid oes rhaid cofrestru'r gweithgarwch hwnnw hefyd. Enghraifft o hyn fyddai fferm laeth (cofrestru) sydd hefyd yn cynhyrchu cynhyrchion llaeth i'w gwerthu'n gyfan gwbl i'r defnyddiwr terfynol (cymeradwyaeth) ac sydd â siop ar y fferm (cofrestru). Gellir cyflwyno un cais i gwmpasu'r gweithgareddau sydd angen eu cofrestru. Mae Atodiad E yn cynnwys canllaw a fydd yn helpu i benderfynu beth sydd angen ei wneud – cofrestru a/neu cymeradwyo.

6. Cymeradwyaeth

6.1 Mae'n rhaid i fusnesau bwyd sy'n trafod bwyd sy'n deillio o anifeiliaid gael eu cymeradwyo gan yr awdurdod cymwys. Mae yna rai eithriadau i'r rheol hon. Mae Atodiad E yn cynnwys canllaw i weld a oes angen cymeradwyaeth ar eich busnes. Os oes angen cymeradwyaeth, nid oes rhaid cofrestru'r busnes hefyd. Bydd cymeradwyaeth newydd yn disodli unrhyw gymeradwyaeth gyfredol ac (yn y sector cig) unrhyw gymeradwyaeth a thrwyddedau gweithfeydd cig a roddwyd cyn 1 Ionawr 2006. Felly, os yw eich busnes wedi'i gymeradwyo eisoes neu fod ganddo drwydded gwaith cig, bydd angen ei ail-asesu am gymeradwyaeth dan y Rheoliadau newydd. Fodd bynnag, gallwch barhau i weithredu eich busnes nes bod yr awdurdod cymwys yn gwneud yr ailasesiad hwn. Os ydych yn cychwyn busnes newydd, mae angen i chi wneud cais am gymeradwyaeth i'r awdurdod cymwys perthnasol cyn y gallwch fasnachu. Mae Atodiad B yn cynnwys manylion cysylltu.

6.2 Os yw busnes yn:

- un sy'n cyflenwi helgig gwyllt i'r farchnad ddomestig yn unig; neu'n
- un sy'n torri cig i'w gyflenwi i fusnesau eraill, yn cynnwys arlwywyr, dros y trothwy "ymyol" a "lleol" (gweler Atodiad H am fanylion pellach); neu'n
- un sy'n cynhyrchu briwgig a pharatoadau cig i'r farchnad ddomestig; neu'n
- storfa oer na thrwyddedwyd o'r blaen
- busnes sy'n graddio neu'n pacio wyau

ac wedi'i gofrestru gyda'r awdurdod bwyd, mae angen ei gymeradwyo yn awr, gan yr ASB yn y ddau achos cyntaf a chan yr awdurdod bwyd yn y trydydd, pedwerydd a'r pumed achos, oni bai ei fod ar yr un safle â lladd-dy, gwaith torri neu fusnes trafod adar hela – os yw, mae angen cymeradwyaeth yr ASB hefyd. Disgwylir i'r broses o gymeradwyo'r holl fusnesau sy'n perthyn i'r categorïau hyn (gan yr ASB yn y ddau achos cyntaf) gymryd rhwng 12 a 18 mis, er bod gan fusnesau pacio wyau tan ddiwedd 2009 i gael eu cymeradwyo. Mae'n rhaid i fusnesau pacio wyau fodloni gofynion cyffredinol Atodiad II Rheoliad 852/2004.

6.3 Os yw busnes yn gweithgynhyrchu bwydydd sy'n cynnwys cynhyrchion sy'n deillio o blanhigion a chynhyrchion a broseswyd sy'n deillio o anifeiliaid, nid oes rhaid i'r gweithgynhyrchu fodloni gofynion Rheoliad 853/2004 (Erthygl 1(2) Rheoliad 853/2004 Nodwch fod 'prosesu' a 'chynhyrchion a broseswyd' wedi'u diffinio yn Erthygl 2(1)(m) a (o) Rheoliad 852/2004.). Nid oes rhaid i'r busnesau hynny gael cymeradwyaeth, ac nid oes rhaid iddynt roi marc adnabod ar y bwyd. Fodd bynnag, mae'n rhaid i gynhyrchion a broseswyd sy'n deillio o anifeiliaid a ddefnyddir i baratoi bwyd o'r fath fodloni gofynion penodol a chael eu prosesu mewn busnes cymeradwy.

6.4 **Mae mesurau trosiannol yn berthnasol. Gweler Atodiad I.**

7. Gofynion hylendid penodol

7.1 Mae Erthygl 4 (2) Rheoliad 852/2004 yn nodi bod rhaid i weithredwyr busnesau bwyd gydymffurfio, fel y bo'n briodol, gyda'r gofynion hylendid cyffredinol a nodwyd yn Atodiad II y Rheoliad. Gweler y canllawiau yn Atodiad B am fwy o gyngor ar oblygiadau hyn i'ch busnes bwyd. Bydd gofyn i chi hefyd gydymffurfio â gofynion perthnasol Rheoliad 853/2004 os ydych chi'n cynhyrchu cynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid (gweler Atodiadau D a G). Yn olaf, efallai bod rhai o ddarpariaethau ychwanegol penodol y Rheoliadau Hylendid Bwyd sydd wedi'u rhestru yn Atodiad A yn berthnasol i chi. Mae'r rhain yn ymwneud â:

- cludo llwythi o olewau neu frasterau hylif mewn llongau a chludo siwgr amrwd ar y môr (Rheoliad 29 ac Atodlen 3), (GI: Rheoliad 26 ac Atodlen 3)
- gofynion rheoli tymheredd (Rheoliad 30 ac Atodlen 4), (GI: Rheoliad 27 ac Atodlen 4)
- cynhyrchydd yn darparu cyflenwad uniongyrchol o symiau bychain o gig o ddofednod a lagomorffiaid a laddwyd ar y fferm (Rheoliad 31 ac Atodlen 5) (GI: Rheoliad 28 ac Atodlen 5) a
- chyfyngiadau ar werthu llaeth amrwd a fwriadwyd i'w yfed gan bobl (Rheoliad 32 ac Atodlen 6)(GI: Rheoliad 29 ac Atodlen 6).

7.2 Mae yna ofynion ynglŷn â meini prawf microbiolegol hefyd. Mae'r rhain wedi'u nodi yn Rheoliad (CE) 2073/2005 y Comisiwn ar feini prawf microbiolegol bwydydd. Roedd y rhain yn disodli'r gofynion blaenorol mewn Cyfarwyddebau hylendid sector benodol. Mae Atodiad B yn nodi ble mae cael gafael ar ganllawiau i Rheoliad (CE) 2073/2005 .

8. Rheoli Diogelwch Bwyd

8.1 Ac eithrio gweithgareddau ar lefel cynhyrchu sylfaenol, mae gofyn i weithredwyr busnesau bwyd roi gweithdrefnau ar waith i reoli diogelwch bwyd yn eu busnes. Mae Erthygl 5 (1) Rheoliad 852/2004 yn nodi bod rhaid seilio'r weithdrefn neu'r gweithdrefnau ar egwyddorion HACCP (Dadansoddi Peryglon a Phwynt Rheoli Critigol) a nodwyd yn Erthygl 5(2). Mae'r Erthygl wedi'i geirio'n hyblyg er mwyn nodi mai dim ond seilio'r gweithdrefnau ar yr

egwyddorion sy'n rhaid ei wneud. Nid yw'n cyfyngu gweithredwyr busnesau bwyd i weithredu system HACCP, os nad yw hyn yn briodol. Mae rhagor o wybodaeth ynglŷn â sut i gydymffurfio â'r gofyniad hwn yn y wybodaeth a restrwyd yn Atodiad B.

9. Canllawiau arferion da

Mae **Erthyglau 7-9 Rheoliad 852/2004** yn darparu ar gyfer datblygu canllawiau arferion da ym maes hylendid a gweithredu egwyddorion HACCP. Gall gweithredwyr busnesau bwyd ddefnyddio'r canllawiau hyn fel cymorth gwirfoddol i gydymffurfio â'u hobblygiadau dan y ddeddfwriaeth hylendid bwyd. Mae rhagor o wybodaeth am ganllawiau arferion da ar wefan yr ASB yn www.food.gov.uk/foodindustry/hygiene/goodpractice.

10. Gorfodi

10.1 Mae Rheoliad 5 y ddeddfwriaeth genedlaethol a restrir Atodiad A yn rhoi'r cyfrifoldeb o orfodi'r ddeddfwriaeth ar awdurdodau bwyd a'r Asiantaeth Safonau Bwyd. Mae'r cyfrifoldeb ar gyfer gorfodi mewn gwahanol fathau o fusnesau wedi'i nodi isod.

10.2 Cynhyrchwyr sylfaenol sy'n gorfod dilyn Rheoliad 852/2004 yn unig

Fel y nodwyd yn Atodiad F, mae'r cyfrifoldeb o orfodi'r ddeddfwriaeth ar lefel cynhyrchu sylfaenol yn dal dan drafodaeth.

10.3 Busnesau bwyd eraill sy'n gorfod dilyn Rheoliad 852/2004 yn unig

Awdurdodau bwyd fydd yn gyfrifol am orfodi.

10.4 Busnesau bwyd y mae Rheoliad 853/2004 yn berthnasol iddynt – busnesau cig

Ym Mhrydain

Mae Gwasanaeth Hylendid Cig (MHS) yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn gyfrifol am orfodi mewn

- lladd-dai, gweithfeydd torri a busnesau trafod adar hela cymeradwy neu gymeradwy gydag amodau
- lladd-dai, gweithfeydd torri a busnesau trafod adar hela sy'n disgwyl cymeradwyaeth derfynol ac a oedd yn gweithredu gyda thrwydded dan y Rheoliadau Hylendid Cig ar ddiwedd 2005.

Mae'r MHS hefyd yn gyfrifol am orfodi mewn

- gweithfeydd cynhyrchion cig, briwrig, paratodau cig, cig a wahanwyd yn fecanyddol, storfeydd oer (h.y. lapio) neu fusnesau cyd-gynhyrchion bwydwydwy (h.y. stumogau, pledrennau a pherfedd wedi'u trin, brasterau anifeiliaid wedi'u rendro a chriwsion, gelatin a cholagen) sydd wedi'u lleoli ar yr un safle â lladd-dy, gwaith torri neu fusnes trafod adar hela cymeradwy.

Bydd awdurdodau bwyd yn gyfrifol am orfodi mewn

- storffeydd oer, busnesau ail-lapio a busnesau annibynnol cymeradwy sy'n cynhyrchu cynhyrchion cig, briwrig, paratodau cig, cig a wahanwyd yn fecanyddol, cyd-gynhyrchion cig bwytadwy ac mewn busnesau sydd wedi'u heithrio o gymeradwyaeth dan Reoliad 853/2004.

Bydd busnesau sy'n trosglwyddo o reolaeth awdurdod bwyd i reolaeth yr MHS yn gwneud hynny ar ôl cael eu cymeradwyo. Fodd bynnag, cafodd y gwaith o orfodi mewn storffeydd oer sy'n gweithredu gyda thrwydded o dan y Rheoliadau Hylendid Cig ar ddiwedd 2005 ei drosglwyddo i awdurdodau bwyd ar 1 Ionawr 2006.

Yng Ngogledd Iwerddon

Uned Iechyd Cyhoeddus Milfeddygol (VPHU) Gwasanaeth Milfeddygol DARD sy'n gwneud y gwaith gorfodi mewn lladd-dai, gweithfeydd torri a busnesau trafod adar hela ar ran ASB Gogledd Iwerddon.

VPHU hefyd sy'n gorfodi mewn busnesau briwrig, paratodau cig, cig a wahanwyd yn fecanyddol a storffeydd oer sydd ar yr un safle â lladd-dy, gwaith torri neu fusnes trafod adar hela cymeradwy.

Awdurdodau bwyd (Cynghorau Dosbarth) sy'n gyfrifol am orfodi mewn:

- Gweithfeydd briwrig, paratodau cig, cig a wahanwyd yn fecanyddol a storffeydd oer annibynnol cymeradwy;
- Busnesau cynhyrchion cig a chyd-gynhyrchion bwytadwy cymeradwy (annibynnol ac yn rhannu safle);
- Busnesau sydd wedi'u heithrio o gymeradwyaeth dan Reoliad 853/2004.

10.5 Busnesau bwyd eraill y mae Rheoliad 853/2004 yn berthnasol iddyn nhw

Mae awdurdodau bwyd yn gyfrifol am orfodi.

Yn achos busnesau cynhyrchu llaeth, Cyfarwyddiaeth Hylendid Llaeth Defa sy'n gyfrifol am orfodi yng Nghymru a Lloegr. Yn yr Alban, yr awdurdodau bwyd sy'n gyfrifol am fusnesau llaeth tra bod Cangen Sicrhau Ansawdd DARD yn gyfrifol am orfodi yng Ngogledd Iwerddon.

Yn achos cynhyrchu wyau, mae unedau cynhyrchu wyau'n cael eu hystyried fel cynhyrchu sylfaenol, ond unwaith mae'r wy yn gadael yr uned gynhyrchu a bod rhyw broses arall yn cael ei wneud iddo e.e. graddio a phacio, nid yw'r gwaith hwnnw'n gynhyrchu sylfaenol. Mae cynhyrchu wyau yn dod o dan Reoliad 852/2004 ac mae'r trefniadau gorfodi yr un fath ag ym mharagraff 10.2 uchod. Yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, yr awdurdod bwyd sy'n gorfodi ym maes pacio wyau ac mae'n rhaid i'r canolfannau pacio wyau gael eu cymeradwyo gan awdurdodau bwyd. Yng Ngogledd Iwerddon, Cangen Sicrhau Ansawdd DARD sy'n gyfrifol am orfodi mewn unedau cynhyrchu wyau a chanolfannau pacio wyau.

**Y RHEOLIADAU HYLENDID BWYD A DEDDFWRIAETH GYSYLLTIEDIG
ARALL**

1. Rheoliadau'r UE yw:

- Rheoliad (CE) 852/2004 Senedd a Chyngor Ewrop ar hylendid bwydydd;
- Rheoliad (CE) 853/2004 Senedd a Chyngor Ewrop yn nodi rheolau hylendid penodol ar gyfer bwyd sy'n deillio o anifeiliaid; a
- Rheoliad (CE) 854/2004 Senedd a Chyngor Ewrop yn nodi rheolau penodol ar gyfer trefnu rheolaethau swyddogol ar gynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid y bwriadwyd i'w bwyta gan bobl².

Cyhoeddwyd y rhain yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd ar 30 Ebrill 2004, L139. Cyhoeddwyd fersiynau cywir yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd ar 25 Mehefin 2004, L226.

2. Cyhoeddwyd nifer o fesurau manylach hefyd, yn cynnwys mesurau gweithredu a throsiannol. Y rhain yw:

² Diwygwyd y Rheoliad hwn gan Reoliad (CE) 882/2004 Senedd a Chyngor Ewrop ar reolaethau swyddogol i sicrhau cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd anifeiliaid a bwyd, a rheolau iechyd a lles anifeiliaid.

- Rheoliad (CE) 1688/2005 y Comisiwn yn gweithredu Rheoliad (CE) 853/2004 Senedd a Chyngor Ewrop mewn perthynas â gwarantau arbennig ynglŷn â salmonela ar gyfer llwythi o rai mathau o gig ac wyau i'r Ffindir a Sweden;
- Rheoliad (CE) 2073/2005 y Comisiwn ar feini prawf microbiolegol bwydydd;
- Rheoliad (CE) 2074/2005 y Comisiwn yn nodi mesurau gweithredu ar gyfer rhai cynhyrchion dan Rheoliad (CE) 853/2004, ar gyfer trefnu rheolaethau swyddogol dan Rheoliadau (CE) 854/2004 a 882/2004, yn rhanddirymu Rheoliad (CE) 852/2004 ac yn diwygio Rheoliadau (CE) 853/2004 a 854/2004;
- Rheoliad (CE) 2075/2005 y Comisiwn yn nodi rheolau penodol ar gyfer rheolaethau swyddogol *Trichinella* mewn cig; a
- Rheoliad (CE) 2076/2005 y Comisiwn yn nodi trefniadau trosiannol ar gyfer gweithredu Rheoliadau (CE) 853/2004, (CE) 854/2004 a 882/2004 Senedd a Chyngor Ewrop ac yn diwygio Rheoliadau (CE) 853/2004 a 854/2004.

Cyhoeddwyd Rheoliad 1688/2005 yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd (OJ) ar 15 Hydref 2005, L271. Cyhoeddwyd Rheoliadau 2073/2005, 2074/2005, 2075/2005 a 2076/2005 yn y Cyfnodolyn Swyddogol ar 22 Rhagfyr 2005, L 338.

Mae copïau pdf o'r Rheoliadau ar wefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn:

www.food.gov.uk/foodindustry/regulation/europeleg/eufoodhygieneleg/

Mae copïau o'r Cyfnodolyn Swyddogol ar wefan yr Undeb Ewropeaidd yn:

www.europa.eu.int/eur-lex/lex/JOIndex.do?ihmlang=en

Nodwch nad yw'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn gyfrifol am gynnwys gwefannau allanol.

3. Caiff y ddeddfwriaeth hon ei gweithredu yn y DU gan:

- Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 (OS 2006/31 (W.5))
- Rheoliadau Hylendid Bwyd (Lloegr) 2006 (OS 2006/14)
- Rheoliadau Hylendid Bwyd (yr Alban) 2006 (SSI 2006/3)
- Rheoliadau Hylendid Bwyd (Gogledd Iwerddon) 2006 (SR 2006/3)

Mae copïau ar gael gan Swyddfa Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus (OPSI). Gallwch gael copïau ar wefan yr OPSI yn:

www.opsi.gov.uk

4. Mae Rheoliadau'r UE a restrwyd uchod yn defnyddio diffiniadau a nodwyd yn:

- Rheoliad (CE) 178/2002 Senedd a Chyngor Ewrop ar 28 Ionawr 2002 yn nodi egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu'r Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewropeaidd ac yn nodi gweithdrefnau diogelwch bwyd.

Cyhoeddwyd y Rheoliad yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd ar 1 Chwefror 2002, L031. Gallwch gael copïau ar wefan yr Undeb Ewropeaidd drwy glicio ar y cyswllt uchod.

FFYNONELLAU CYNGOR A GWYBODAETH

Mae'r Atodiad hwn yn cynnwys amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth a chyngor eraill ar gyfer y diwydiant, ymarferwyr gorfodi a sefydliadau gwirfoddol. Mae'r Atodiad wedi'i rannu fel a ganlyn:

1. Gwybodaeth gefndir
2. Canllawiau'r ASB i sectorau'r diwydiant bwyd
3. Pecynnau Rheoli Diogelwch Bwyd / HACCP i arlwywyr
4. Ffynonellau gwybodaeth eraill i fusnesau bach gan y Llywodraeth
5. Canllawiau'r Comisiwn Ewropeaidd ar Reoliadau 852/2004, 853/2004, ar HACCP a Mewnforion
6. Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd statudol a'r Canllawiau Ymarfer sy'n cyd-fynd ag ef a ffynonellau cyngor eraill i ymarferwyr iechyd yr amgylchedd ac ymarferwyr gorfodi mewn awdurdodau iechyd porthladdoedd
7. Canllawiau i swyddogion gorfodi'r Gwasanaeth Hylendid Cig
8. Manylion am ymarferwyr gorfodi cyrff eraill
9. Ffynonellau gwybodaeth y Llywodraeth i ffermwyr, tyfwyr a chynhyrchwyr eraill
10. Sefydliadau a Chymdeithasau'r diwydiant
11. Canllawiau hylendid da i fusnesau a'r sector domestig
12. Ffynonellau gwybodaeth cyffredinol eraill

1. Gwybodaeth gefndir

Mae cefndir y ddeddfwriaeth newydd a chopïau o destunau'r UE ar wefan yr ASB yn:

www.food.gov.uk/foodindustry/regulation/europeleg/eufoodhygieneleg/

Mae gwybodaeth i fusnesau ac ymarferwyr gorfodi ar ffurf cwestiynau ac atebion ar y ddeddfwriaeth hylendid bwyd newydd ar y wefan:

www.food.gov.uk/foodindustry/hygiene/

Mae fersiwn electronig o Gyfnodolyn Swyddogol yr UE (sy'n cynnwys Rheoliadau mabwysiedig yr UE) ar wefan yr Undeb Ewropeaidd yn:

www.europa.eu.int/eur-lex/lex/JOIndex.do?ihmlang=en

2. Canllawiau'r ASB i sectorau'r diwydiant bwyd

Mae'r ASB wedi cynhyrchu'r canllawiau cyffredinol hyn a chanllawiau cryno sector benodol ar y ddeddfwriaeth newydd. Mae gan yr ASB hefyd ganllawiau ar hylendid bwyd a rheoliadau eraill i'r diwydiant cig, Rheoliad Meini Prawf Microbiolegol a mewnforion bwydydd nad ydynt yn deillio o

anifeiliaid. Mae cysylltiadau i gopïau electronig o'r canllawiau hyn ar wefan yr ASB yn:

<http://www.food.gov.uk/foodindustry/guidancenotes/foodguid/fhlguidance/>

Gellir cael mynediad syth i'r canllawiau hyn:

Cig:

www.food.gov.uk/foodindustry/meat/

Yn cynnwys canllawiau drafft, dyddiadur HACCP, anifeiliaid hela gwyllt a chyd-gynhyrchion bwydwy.

Rheoliad Meini Prawf Microbiolegol:

<http://www.food.gov.uk/foodindustry/regulation/europeleg/eufoodhygieneleg/microbiolreg>

Mewnforion bwyd anifeiliaid a bwyd nad yw'n deillio o anifeiliaid

Mae'r ddeddfwriaeth ynglŷn â'r meysydd uchod wedi newid ers 1 Ionawr 2006. Daeth Rheoliad 882/2004 y CE, *Rheoliad Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd* i rym yn Lloegr trwy Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Lloegr) 2006 (SI 2006/15) a deddfwriaeth gyfatebol yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'r canllawiau hyn, ar ffurf cwestiwn ac ateb, yn helpu i egluro'r gofynion cyfreithiol ar gyfer busnesau fel y nodwyd yn rhan 3 y Rheoliadau hyn yn Lloegr:

<http://www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/offcindustryguidancenote.pdf>

3. Pecynnau Rheoli Diogelwch Bwyd / HACCP i arlwywyr

Mae'r ddeddfwriaeth newydd yn ei gwneud hi'n ofynnol i bob busnes bwyd gael system rheoli diogelwch bwyd yn seiliedig ar egwyddorion HACCP. Mae'r ASB wedi datblygu pecynnau canllawiau er mwyn helpu arlwywyr i gydymffurfio.

Y rhain yw 'Safer food better business' yn Lloegr, 'Safe catering – your guide to HACCP' yng Ngogledd Iwerddon a 'Cooksafe' yn yr Alban.

Nodwch nad oes rhaid i fusnesau arlwyio ddewis y pecyn a ddatblygwyd gan awdurdod ASB eu gwlad; gallant ddewis unrhyw fodel arall.

Lloegr – ‘Safer food, better business’

Datblygwyd y pecyn hwn gan yr ASB mewn partneriaeth â busnesau arlwyio bach a thros 50 o awdurdodau lleol.

Os hoffech gael pecyn cysylltwch ag Adran Iechyd yr Amgylchedd eich awdurdod lleol neu Gyhoeddiadau'r ASB ar 0845 606 0667 neu e-bostiwch foodstandards@ecgroup.uk.com.

Gallwch weld y pecyn ar y wefan:

www.food.gov.uk/foodindustry/hygiene/sfbb/

Rydym wrthi'n datblygu pecyn i fanwerthwyr hefyd.

Yr Alban – ‘Cooksafe’

Mae ASB yr Alban wedi defnyddio arbenigedd y diwydiant bwyd yn cynnwys busnesau bach, awdurdodau lleol a Phwyllgor Cyngori ar Fwyd yr Alban i ddatblygu system yn seiliedig ar HACCP o'r enw 'CookSafe'. Dylai busnesau sydd am gael copi gysylltu â'u hawdurdod lleol neu gellir lawrlwytho copi o wefan yr ASB yn:

www.food.gov.uk/foodindustry/hygiene/cooksafe/

Cymru

Mae sawl awdurdod lleol wedi datblygu pecynnau canllawiau ar HACCP i arlwywyr ac mae ASB Cymru wedi annog yr awdurdodau i rannu'r rhain rhwng awdurdodau lleol Cymru. Dylai busnesau gysylltu ag Adran Iechyd yr Amgylchedd eu hawdurdod lleol am ragor o wybodaeth.

Gogledd Iwerddon – ‘Safe Catering – your guide to HACCP’

Yng Ngogledd Iwerddon, mae'r Asiantaeth wedi gweithio gydag awdurdodau lleol ac arlwywyr i gynhyrchu canllawiau i'r sector arlwyio - 'Safe Catering – your guide to HACCP'. Mae'r canllawiau, a ddatblygwyd a'u gwella dros nifer o flynyddoedd, yn cael eu hyrwyddo gan holl awdurdodau lleol Gogledd Iwerddon a'u derbyn yn eang gan y sector arlwyio. Mae'n fwriad diwygio'r canllawiau eto yn y dyfodol agos. Ffoniwch ASB Gogledd Iwerddon ar 028 9041 7700 i gael pecyn.

4. Ffynonellau gwybodaeth eraill i fusnesau bach gan y Llywodraeth

Y Gwasanaeth Busnesau Bach

www.sbs.gov.uk

ffôn: 020 7215 5000 (llinell ymholiadau'r Adran Masnach a Diwydiant)

Mae cyngor ymarferol i fusnes ar y wefan:

www.businesslink.gov.uk

5. Canllawiau'r Comisiwn Ewropeaidd ar Reoliadau 852/2004, 853/2004, ar HACCP a Mewnforion

Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi cyhoeddi'r canllawiau canlynol.

Canllawiau HACCP – dogfen ar gyfer busnesau bwyd ac ymarferwyr gorfodi yw hon yn bennaf a'i nod yw rhoi canllawiau ar weithredu gweithdrefnau sy'n seiliedig ar egwyddorion HACCP ac ar hyblygrwydd mewn perthynas â gweithredu gweithdrefnau o'r fath, yn enwedig mewn busnesau bach. Gellir lawrlwytho copi o wefan yr UE ar:

http://europa.eu.int/comm/food/food/biosafety/hygienelegislation/guidance_doc_haccp_en.pdf

Canllawiau i Reoliad 852/2004 a Rheoliad 853/2004 - dwy ddogfen ar gyfer busnesau bwyd ac ymarferwyr gorfodi yw'r rhain yn bennaf gyda'r nod o roi canllawiau ar weithredu'r gofynion hylendid bwyd newydd a phynciau cysylltiedig. Gellir eu lawrlwytho o wefan yr UE ar:

http://europa.eu.int/comm/food/food/biosafety/hygienelegislation/guidance_doc_852-2004_en.pdf

ac o:

http://europa.eu.int/comm/food/food/biosafety/hygienelegislation/guidance_doc_853-2004_en.pdf

Canllawiau ar Fewnforion - dogfen ar gyfer awdurdodau cymwys a busnesau bwyd yr Aelod-wladwriaethau a thrydydd gwledydd yw hon yn bennaf a'i nod yw rhoi canllawiau ar rai cwestiynau allweddol mewn perthynas â gweithredu'r gofynion mewnforio hylendid bwyd newydd a phynciau cysylltiedig. Gellir ei lawrlwytho o wefan yr UE ar:

www.europa.eu.int/comm/food/international/trade/interpretation_imports.pdf

6. Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd statudol a'r Canllawiau Ymarfer cysylltiedig a ffynonellau cyngor eraill i ymarferwyr iechyd yr amgylchedd ac ymarferwyr gorfodi mewn awdurdodau iechyd porthladdoedd

Cymru a Lloegr

Mae'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd statudol a'r Canllawiau Ymarfer cysylltiedig wedi'u diwygio yng ngoleuni'r ddeddfwriaeth newydd.

Gellir cael copïau ohonynt ar wefan yr ASB yn:

www.food.gov.uk/enforcement/foodlaw/copenland

a

www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/codeofpracticedraftwales.pdf

Mae Cod Ymarfer Cymru wrthi'n cael ei gyfieithu (dechrau Ebrill 2006) a bydd yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar ddiwedd Ebrill.

Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r rhain mewn llythyr i orfodwyr trwy'r Porth Gorfodi sydd ar:

www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/enf_e_05_045.pdf.

Mae copïau caled o'r dogfennau uchod ar gael gan yr ASB trwy ffonio 020 7276 8455 neu 020 7276 8454, neu gan ASB Cymru ar 029 2067 8902.

Gallwch gysylltu â chyrrff cynrychioli iechyd yr amgylchedd / porthladdoedd hefyd:

Cydgysylltwyr Gwasanaethau Rheoleiddio Awdurdodau Lleol

www.lacors.gov.uk

ffôn: 020 7840 7200

Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd

www.cieh.org

ffôn: 020 7928 6006

ebost: e-bost: info@cieh.org

Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd Cymru-Wales

www.cieh-cymruwales.org

ffôn: 01766 810081

ebost: e-bost: ciehcymruwales@cieh.net <<mailto:ciehcymruwales@cieh.net>>

Cymdeithas Awdurdodau Porthladdoedd

www.apha.org.uk

ffôn: 08707 444505

ebost: e-bost: APHA@cieh.org.uk

Mae gwefan yr ASB yn cynnwys amrywiaeth eang o wybodaeth i ymarferwyr gorfodi. Mae cysylltiadau i'r wybodaeth hon ar y Porth Gorfodi:

www.food.gov.uk/enforcement/

Yr Alban

Mae Cod Ymarfer a Chanllawiau Ymarfer *drafft* yr Alban ar wefan yr ASB yn:

www.food.gov.uk/foodindustry/Consultations/consultscot/copscot2005

Gellir cael copïau caled o'r dogfennau uchod trwy ffonio Asiantaeth Safonau Bwyd yr Alban ar 01224 285118

Gallwch gysylltu â chyrrff cynrychioli iechyd yr amgylchedd hefyd:

Royal Environmental Health Institute of Scotland

www.rehis.org/

ffôn: 0131 225 6999

e-bost: e-bost: rehis@rehis.org.uk

Gogledd Iwerddon

Mae Cod Ymarfer a Chanllawiau Ymarfer *drafft* Gogledd Iwerddon ar wefan yr ASB yn:

<http://www.food.gov.uk/enforcement/foodlaw/copni>

7. Canllawiau i swyddogion gorfodi'r Gwasanaeth Hylendid Cig a Gwasanaeth Milfeddygol DARD

Cymru, Lloegr a'r Alban

Mae canllawiau ar gael yn Llawlyfr Rheolaethau Swyddogol y maes gorfodi. Gellir cael copi ar y wefan:

www.food.gov.uk/enforcement/meathyg/mhservice/

Gogledd Iwerddon

Disgwylir y bydd fersiwn cyfatebol o'r Llawlyfr Rheolaethau Swyddogol ar gyfer Gwasanaeth Milfeddygol DARD ar gael yn fuan ar wefan DARD

8. Manylion ymarferwyr gorfodi cyrff eraill

Wyau

Cyfarwyddiaeth Marchnata Wyau (EMI)

Mae gwybodaeth ar wefan EMI yn:

www.defra.gov.uk/foodrin/poultry/emi.htm

Mae gwybodaeth am Uned Wyau a Dofednod Adran yr Amgylchedd a Materion Gwledig Gweithrediaeth yr Alban ar:

www.scotland.gov.uk/Topics/Agriculture/Agricultural-Policy/LivestockAndLivestockProd/EggsAndPoultry/Enforcement

Llaeth

Cyfarwyddiaeth Hylendid Llaeth

www.defra.gov.uk/rds/dhi.htm

Ffôn: 01823 285540 e-bost: Ffôn: 01823 285540 e-bost:
dhi.taunton@defra.gsi.gov.uk

Yn yr Alban, mae'r gwaith cyfatebol yn cael ei wneud gan awdurdodau lleol.

9. Ffynonellau gwybodaeth y Llywodraeth i ffermwyr, tyfwyr a chynhyrchwyr eraill

Lloegr

I gael rhagor o wybodaeth gyffredinol am y rheoliadau hylendid bwyd fel maent yn berthnasol i gynhyrchwyr a thyfwyr, gweler y dudalen cwestiynau ac atebion ar wefan yr ASB:

<http://www.food.gov.uk/foodindustry/hygiene/haccpprimary/>

Gallwch ffonio'r ASB hefyd ar 020 7276 8972.

I gael rhagor o wybodaeth am y rheoliadau hylendid bwyd anifeiliaid ffoniwch yr ASB ar 020 7276 8469. Fel arall, ffoniwch linell gymorth Defra ar 08459 33 55 77 i gael gwybodaeth am yr holl reoliadau.

Mae taflen sy'n rhoi gwybodaeth gyffredinol i ffermwyr a thyfwyr am y ddeddfwriaeth hylendid bwyd anifeiliaid a bwyd newydd ar:

www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/farmgrowhyg.pdf

Rheoliad Hylendid Bwyd Anifeiliaid y CE

Mae canllawiau i'w cael i fusnesau bwyd anifeiliaid sy'n gwneud, defnyddio neu farchnata bwyd anifeiliaid, sy'n nodi'r gofynion cofrestru a chymeradwyo o 1 Ionawr 2006. Mae'r rhain yn cynnwys y rhan fwyaf o ffermydd da byw (yn cynnwys ffermydd pysgod) ac mae ffermydd â'r sy'n tyfu, defnyddio neu werthu cynydu ar gyfer bwyd anifeiliaid hefyd yn dod dan ddarpariaethau

Rheoliad Hylendid Bwyd Anifeiliaid newydd y CE (183/2005). Mae Atodiad III Rheoliad 183/2005 yn cynnwys Cod ar fwydo anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd.

Yr Alban

I gael rhagor o wybodaeth yn yr Alban ffoniwch ASB yr Alban ar 01224 285142 (ymholiadau bwyd) neu 01224 285138 (ymholiadau bwyd anifeiliaid).

Mae gwybodaeth amrywiol arall i ffermwyr a thyfwyr yn yr Alban ar wefan ASB yr Alban:

www.food.gov.uk/news/newsarchive/2005/nov/scothygleaf

Cymru

I gael rhagor o wybodaeth yng Nghymru, ffoniwch ASB Cymru ar 029 2067 8915 (ymholiadau bwyd) neu 029 2067 8908 (ymholiadau bwyd anifeiliaid).

Mae yna gysylltiadau i bynciau eraill o ddiddordeb i ffermwyr a thyfwyr ledled y DU ar wefan yr ASB yn:

<http://www.food.gov.uk/foodindustry/farmingfood/>

